# Y Gwasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu: Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru 2024-2025

1 Gorffennaf 2025

# Crynodeb

Mae'r system gynllunio defnydd tir yn fecanwaith cyflawni strategol allweddol ar gyfer rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Rydym yn ymgynghorai arbenigol neu statudol yn y broses rheoli datblygiadau. Mae hyn yn golygu y dylai ymgeiswyr, ac awdurdodau sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio, ymgynghori â ni ar gynlluniau arfaethedig, sy'n bodloni un neu fwy o'r meini prawf ar gyfer lle rydym ni wedi'n nodi fel ymgynghorai arbenigol neu statudol. Pan ymgynghorir â ni, mae'n ofynnol i ni ddarparu ymateb o sylwedd o fewn yr amserlenni penodedig.

Fel ymgynghorai arbenigol, mae'n ofynnol i ni ddarparu Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru, sy'n nodi ein perfformiad blynyddol mewn perthynas â darparu ymatebion o sylwedd i Ddatblygiadau Bach, Mawr a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC). Nid yw'r ystadegau a adroddir yn cynnwys Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, a benderfynir gan Lywodraeth y DU, ymgynghoriadau ar Gynlluniau Datblygu Lleol na cheisiadau am wasanaeth anstatudol e.e. ein Gwasanaeth Cyngor Dewisol.

Yn ystod y cyfnod adrodd 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025, cawsom 7,607 o ymgynghoriadau Datblygiadau Bach, Mawr a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) a oedd yn gofyn am ymateb o sylwedd. Ymatebon ni i 7,513 o ymgynghoriadau, gyda 7,466 (99%) o'r rheini wedi'u cyflwyno o fewn terfyn amser statudol neu derfyn amser y cytunwyd arno fel arall.

Mae Ffigurau 1-5 isod yn rhoi rhagor o fanylion am ein perfformiad yn ôl y math o ymgynghoriad. Mae'r gwahaniaeth rhifiadol rhwng ymgynghoriadau a dderbyniwyd ac ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd yn adlewyrchu gwaith sy'n mynd rhagddo lle mae terfynau amser rhagnodedig yn disgyn ar draws gwahanol gyfnodau adrodd.

## Materion a thueddiadau allweddol

Mae nifer yr ymgynghoriadau a dderbyniwyd yn ymwneud â DAC wedi cynyddu 16% o 77 yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf i 92. Mae hyn yn cynrychioli tuedd barhaus ar i fyny dros y blynyddoedd diwethaf. O ystyried natur cynlluniau o'r fath, maent fel arfer yn cynnwys lefel sylweddol o ymrwymiad o ran adnoddau ar draws nifer o arbenigeddau o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Er ein bod wedi ymateb i ymgynghoriadau o fewn terfyn amser statudol neu derfyn amser y cytunwyd arno fel arall mewn 99% o achosion, roedd arnom angen estyniad mewn 28% o achosion yn ymwneud â Datblygiadau Mawr, a 50% o achosion yn ymwneud â DAC. Cyflwynwyd 47 o ymatebion i ymgynghoriadau y tu allan i'r dyddiad cau statudol neu derfyn amser arall y cytunwyd arno, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau adnoddau.

Yn ystod y cyfnod adrodd rydym wedi bod yn gweithio tuag at weithredu strwythur newydd mewn ymateb i gyfyngiadau ariannol ac i ganolbwyntio ar feysydd lle gall gael yr effaith fwyaf ystyrlon ar bobl a natur. Yn ystod y cyfnod hwn mae recriwtio wedi bod yn gyfyngedig ac rydym wedi bod yn cario nifer o swyddi gwag yn ein timau gwaith achos a thimau arbenigol technegol.

Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymgysylltu â datblygwyr drwy gydol y broses cynllunio datblygiadau gan y gall hyn arwain at ganlyniadau amgylcheddol gwell a gall helpu i leihau oedi costus i'n cwsmeriaid. Felly rydym yn annog cwsmeriaid i ymgysylltu â ni drwy gydol y broses o ddatblygu cais cynllunio drwy ein Gwasanaeth Cyngor Dewisol. Mae ein cynnig gwasanaeth wedi'i gyfyngu gan yr adnoddau sydd ar gael. Rhoddwyd blaenoriaeth i ymatebion statudol ac eleni rydym wedi canfod nad oedd gan y gwasanaeth ddigon o adnoddau i ymdopi â’r galw.

Felly, rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ychwanegol i gefnogi cyflawni ein cyfrifoldebau cynllunio o 2025/26 ymlaen. Mae’r broses recriwtio swyddi ar y gweill; disgwylir y bydd llawer o'r swyddi hyn ar waith yn hwyr yn y flwyddyn.

Fel rhan o fesurau ehangach i ddarparu gwasanaeth cyngor cynllunio gwydn, cyson, effeithiol ac effeithlon, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i wella ein darpariaeth cyngor safonol er mwyn galluogi awdurdodau cynllunio i wneud penderfyniadau sy'n wybodus mewn perthynas â’r amgylchedd heb yr angen i ymgynghori â ni. Byddwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i swyddogion Llywodraeth Cymru am gynnydd y gwaith hwn.

Mae’r ffaith fod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yn methu â chyrraedd targedau ansawdd dŵr o ran ffosfforws yn parhau i gael effaith sylweddol ar ddatblygwyr ac Awdurdodau Cynllunio, a Gwasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu CNC. Rydym yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Byrddau Rheoli Maethynnau a rhanddeiliaid ar draws gwahanol sectorau i ddatblygu dulliau ac atebion newydd. Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi diweddaru ein cyngor cynllunio i awdurdodau cynllunio lleol wrth iddynt benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer cynlluniau sydd â'r potensial i effeithio ar ACAau afonol sy'n sensitif o ran maethynnau. Rydym wedi cynnal gwerthusiad o'n Hadolygiad o Drwyddedau ar gyfer gweithfeydd trin dŵr gwastraff sy'n gollwng i ddalgylchoedd ACAau afonydd. Rydym hefyd wedi cyfrannu at ddatblygu cyfrifiannell maethynnau Cymru gyfan i'w defnyddio gan ymgeiswyr ac Awdurdodau Cynllunio.

## Cyngor

Yn ogystal â chyngor gwaith achos:

Rydym wedi cynghori Llywodraeth Cymru ar ei hymgynghoriad ar gyfer:

- Gweithredu Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (19 Medi-13 Rhagfyr 2024)
- Galwad am Dystiolaeth ar gyfer Bil Seilwaith (Cymru): Gofynion ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio a dulliau o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol (13 Mai-22 Gorffennaf 2024)
- Bil Seilwaith (Cymru): Ffioedd am gyflawni swyddogaethau a gwasanaethau caniatâd seilwaith (13 Mai-22 Gorffennaf 2024)


Rydym hefyd wedi cynghori'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ) ar ei hymgynghoriad ar gyfer Datganiadau Polisi Cenedlaethol:

- EN 8 Ynni Ymasiad gydag Asesiad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd (8 Mai-17 Gorffennaf 2024)


- Adroddiad Cwmpasu Asesiad o Gynaliadwyedd ar gyfer diweddaru'r NPS ar gyfer Ynni (20 Chwefror-12 Mawrth 2025)
- EN 7 Ynni Niwclear gydag Asesiad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd (6 Chwefror-3 Ebrill 2025)

## Yn fwy manwl


### Ffigur 1: Ymatebion i ymgynghoriadau cyn ymgeisio ar gyfer datblygiad mawr





### Ffigur 2: Ymatebion i ymgynghoriadau ceisiadau ar gyfer datblygiad mawr




## Ffigur 3: Ymatebion i ymgynghoriadau ceisiadau ar gyfer datblygiad bach




## Ffigur 4: Ymatebion ymgynghoriadau cyn ymgeisio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol



**Ffigur 5: Ymatebion i ymgynghoriadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol**



Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy dderbyn caniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru